# Crynodeb o Gynigion ar gyfer Gwella gan Archwilio Cymru

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| **2021-21** | **Lleihau Allyriadau Carbon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | | | |
| **Mawrth 2022** | Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol ac yn dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai y ceir newid sylweddol mewn perfformiad. | • nid oes gan yr Awdurdod linell sylfaen gywir ar gyfer ei holl allyriadau carbon;<br>• nid oes gan yr Awdurdod gynllun cynhwysfawr i leihau ei allyriadau carbon a dod yn garbon sero net;<br>• mae'r Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd mewn rhai meysydd ond mae angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru; ac<br>• nid oes gan yr Awdurdod drefniadau priodol i fonitro a gwerthuso'i gynnydd tuag at ddod yn garbon sero net. | **A1:** Datblygu llinell sylfaen carbon gywir trwy:<br>• greu cronfa ddata i gofnodi data ar yr holl allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 yn gywir;<br>• cyflwyno proses gasglu i ddiweddaru'r llinell sylfaen yn rheolaidd;<br>• archwilio gwybodaeth yn y llinell sylfaen i sicrhau ei bod yn gywir;<br>• sicrhau bod bylchau yn yr wybodaeth mewn perthynas â mesuryddion dŵr, effaith gwaith gwrthbwyso carbon a data ar adeiladau'n cael eu cofnodi;<br>• sicrhau bod effaith y pandemig a'r newid i fwy o weithio gartref a gweithio'n ystwyth yn cael ei hadlewyrchu yn y llinell sylfaen carbon.<br><br>**A2:** Datblygu cynllun penodol ar gyfer lleihau carbon sy'n | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | nodi'r camau gweithredu y bydd yr Awdurdod yn eu cymryd i ddod yn garbon sero net a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a hynny'n cynnwys:<br>• Defnyddio ynni a gwastraff<br>• Ystadau<br>• Fflyd a seilwaith cerbydau<br>• Y gweithlu<br>• Caffael a'r gadwyn gyflenwi<br>• Gweithio sefydliadol<br>• Cydweithio a phartneriaeth<br>• Gwrthbwyso<br><br>**A3:** Diwygio polisi'r Rhaglen Amnewid Cerbydau a chytuno ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer amnewid injans tân diesel a gwella'r seilwaith gwefru ledled ardal y Gwasanaeth. Fel rhan o'r broses hon dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:<br>• adolygu rhychwant oes tybiannol cerbydau trydan a hybrid i oleuo tybiaethau cynllunio yn y dyfodol mewn modd gwell;<br>• adolygu gwariant cyfalaf cyfredol ar amnewid fflyd a seilwaith gwefru trydan i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o gyllid wedi'i neilltuo i roi cymorth i bontio i fflyd carbon isel; ac | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | • adnabod cyfleoedd a chyflwyno cytundebau cytbwys o'r ddwy ochr i gyrchu mannau gwefru trydan a berchnogir gan y sector cyhoeddus ledled ardal Gogledd Cymru a gwneud y defnydd gorau ohonynt.<br><br>**A4:** Ennyn ymgysylltiad staff a'u cynnwys yn y broses o gynllunio ar gyfer lleihau allyriadau carbon i sicrhau eu bod yn perchnogi cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer gwella a'u bod yn cyfrannu'n llawn at gyflawni camau gweithredu allweddol.<br><br>**A5:** Cryfhau'r modd y mae cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i leihau allyriadau carbon a chyrraedd targedau Llywodraeth Cymru'n cael ei wneud ac yn arwain at welliant trwy:<br>• fynd ati'n rheolaidd i adolygu cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar gyfer lleihau $CO_2e$ yng nghynlluniau'r Awdurdod;<br>• cymharu perfformiad ag eraill i feincnodi ac adnabod cyfleoedd i gefnogi gwelliant;<br>• canolbwyntio ar adrodd ar y | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | cynnydd y mae'r Awdurdod yn ei wneud a gwerthuso'r cynnydd hwnnw tuag at ddod yn garbon sero net erbyn 2030; a<br>• monitro cynnydd o ran cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon ar y cyfan yn ôl cyfradd o 63% erbyn 2030; 89% erbyn 2040; ac o leiaf 100% (sero net) erbyn 2050. | |
| **2020-21** | **Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | | | |
| **Ebrill 2021** | Ar y cyfan, canfuom fod yr Awdurdod wedi dangos ei gydnerthedd byrdymor ond bod angen iddo wneud rhai penderfyniadau mawr i barhau i fod yn gydnerth yn y dyfodol. Fe wnaethom fwrw golwg ar bum maes penodol ac fe ganfuom fel a ganlyn: | • **Cyllid:** Mae'r Awdurdod wedi rheoli cyllidebau'n dda, ond mae angen mynd i'r afael â rhai risgiau allweddol i barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol;<br><br>• **Llywodraethu:** Mae gan yr Awdurdod fframwaith llywodraethu priodol ond mae angen i Aelodau fod â rôl fwy ganolog o ran mynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub;<br><br>• **Gweithlu:** Mae gan yr Awdurdod weithlu cydnerth ac mae wedi ymdrin yn dda â heriau uniongyrchol, ond mae rhai risgiau yn y tymor canolig y mae angen eu rheoli i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy; | **CaG1:** Dylai'r Awdurdod adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu i ddarparu sicrwydd bod trefniadau cyfredol o gymorth gyda chraffu cadarn, yn dwyn swyddogion i gyfrif ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau mawr sy'n wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub.<br><br>**CaG2:** I wella'r modd y cynllunnir ar gyfer olyniaeth dylai'r Awdurdod ailgychwyn ei raglen ymgeiswyr â photensial uchel ac adeiladu arni.<br><br>**CaG3:** I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod adolygu | Mae cynigion ar gyfer gwella yn cael eu hystyried gan adrannau perthnasol a bydd cyfres o gamau yn cael eu datblygu maes o law. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | • **Asedau:** Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'r modd y mae'n integreiddio asedau ac yn datblygu ei ddefnydd o dechnoleg ond mae rhai heriau hirsefydlog y mae angen mynd i'r afael â hwy i helpu i gefnogi cydnerthedd yn y dyfodol; a<br><br>• **Pharhad busnes:** Fe helpodd cynlluniau parhad busnes yr Awdurdod i gynnal cydnerthedd corfforaethol a gweithredol o ran ymateb i'r pandemig. | lleoliadau gorsafoedd i adnabod cyfleoedd i optimeiddio trefniadau ymateb brys. | |
| | | | | |
| **2019-20** | **Adolygiad o Gyfranogiad – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | | | |
| **Ebrill 2020** | Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nad yw wedi mabwysiadu ymagwedd strategol integredig tuag at gyfranogi hyd yma. Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod y canlynol. | • Yn gyffredinol, rydym wedi dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod bocedi o weithgarwch ymgysylltu da ond nad yw wedi mabwysiadu ymagwedd strategol integredig tuag at gyfranogi hyd yma. Daethom i'r casgliad hwn am ein bod wedi canfod y canlynol.<br><br>• Defnyddir gweithgaredd cyfranogi yn bennaf i ymateb i broblemau ac mae eto i ddod yn ased strategol sy'n helpu i sbarduno gwelliant | Yn hytrach na rhestru cynigion ar gyfer gwella, rydym wedi llunio hunanasesiad i staff ac aelodau'r Awdurdod ei ddefnyddio wrth nodi cryfderau a gwendidau ei ddulliau presennol o gyfranogi. Gellir defnyddio'r hunanasesiad hwn ar lefel strategol gorfforaethol ond hefyd ar brosiectau unigol i farnu pa mor dda mae'r Awdurdod yn ei wneud ac ymhle y mae angen newid er mwyn sicrhau bod cyfranogi'n cael ei brif ffrydio a'i wneud yn gynaliadwy. Disgwyliwn i'r Awdurdod ddefnyddio'r adnodd hwn i werthuso ei | **Hunanasesu** |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | berfformiad presennol ac i nodi sut y gall wella ei waith. | |
| | | | | |
| **2018-19** | \\walesfs.org.uk\data\Fire\BV-General\WAO - AIRs\ | | | |
| **Mehefin 2019** | **Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**<br>Archwilio i ba raddau mae'r Awdurdod wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau tuag at gyflawni'r amcan llesiant canlynol<br>Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau integredig i gyhoedd gogledd Cymru.<br>Yn rhan o'r adolygiad hwn fe wnaethom gynnal arolwg partneriaeth ac asesu effeithiolrwydd gwaith partneriaeth yr Awdurdod trwy'r Ymweliadau Diogel ac Iach a'r Tîm Atal Tanau Bwriadol. Adroddwyd canfyddiadau'r arolygon hyn yn ein harchwiliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Mae gan yr Awdurdod hanes o weithgarwch atal hirdymor wedi'i lywio gan ddefnydd da o ddata, ond ceir cyfleoedd i wella'r pwyslais hirdymor ar agweddau eraill ar ei gyllid, cynllunio a gwaith cydweithredol.<br><br>Mae integreiddio yn datblygu'n raddol ac mae angen iddo symud i ymrwymiad i integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithgareddau yn wirioneddol.<br><br>Mae gan yr Awdurdod enghreifftiau cadarnhaol o sut y mae'n cynnwys cymunedau mewn lleihau tanau bwriadol a chynnau tanau yn fwriadol, ond mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau cynnwys y brif ffrwd yn ei holl waith.<br><br>Gall yr Awdurdod ddangos effaith gadarnhaol ei gydweithio â phartneriaid allweddol, ond mae angen iddo ddatblygu a chryfhau ei berthynas ag eraill a'i gyfraniad at amcanion partneriaethau ehangach.<br><br>Mae atal wrth wraidd gwaith awdurdodau tân ac achub, ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i | Er na wnaeth ein harchwiliad unrhyw argymhellion, fe wnaeth ein hadroddiad nodi cyfleoedd i wella. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>•cyfyngiadau ariannol sy'n atal gallu'r Awdurdod i weithredu rhai agweddau anstatudol ar waith atal posibl;<br><br>•mwy o le i ddefnyddio data ynghylch pobl agored i niwed, allgau cymdeithasol ac arunigedd i dargedu'r prif risgiau yn fwy;<br><br>•bydd gwerthuso mentrau atal mewn modd systematig yn helpu i bennu effaith;<br><br>•mae cydleoli yn effeithiol ond gellid rhannu data â phartneriaid yn fwy;<br><br>•mae'r cynnydd lleiaf gweladwy yn gysylltiedig â gwella ymgysylltiad a chreu adnodd strategol o ganlyniadau ymgysylltu; ac | Mae cynigion ar gyfer gwella yn cael eu hystyried gan adrannau perthnasol a bydd cyfres o gamau yn cael eu datblygu maes o law. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso yn helpu i osgoi dyblygu a chyflawni'r effaith fwyaf. | • mae angen rheoli materion capasiti sy'n deillio o wasanaethu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. | |
| **Mawrth 2019** | **Llythyr archwilio blynyddol 2017-18**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | •Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau O ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau.<br><br>•Ar 21 Medi 2018 cyflwynwyd barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu yr Awdurdod a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.<br><br>•Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. | Dim | |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | | |
| **Mai 2018** | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim | |
| **Rhagfyr 2018** | **Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o** | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | **berfformiad** Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad yr Awdurdod. | | | |
| | | | | |
| Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2018-19 | | | | |
| **Tachwedd 2018** | **Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig** | **A1 O ganlyniad i newidiadau economaidd-gymdeithasol, seilwaith gwan a newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, mae cymunedau yng Nghymru wledig wedi dod yn elfen weddilliol. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu dull mwy integredig o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy:**<br>• adfywio rhaglenni grant gwledig er mwyn creu strwythurau ariannol cynaliadwy, gyda dyraniadau aml-flwyddyn; a<br>• chynorthwyo pobl a busnesau i fanteisio i'r eithaf ar gysylltedd digidol trwy raglenni cymorth busnes ac addysg oedolion mwy effeithiol, wedi eu targedu.<br><br>**A2 Mae rôl Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn esblygu ond mae yna gyfleoedd i fynegi cydweledigaeth gliriach a mwy uchelgeisiol ar gyfer Cymru wledig (gweler paragraffau 2.2 i 2.9 a 2.28 i 2.31). Argymhellwn fod gwasanaethau cyhoeddus sy'n bartneriaid i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb yn fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwyneb trwy:**<br>• asesu cryfderau a gwendidau eu cymunedau gwledig gwahanol gan ddefnyddio Offeryn Prawfesur Gwledig Llywodraeth Cymru ac adnabod y camau lleol a strategol y mae arnynt angen eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd cymunedol a chytuno arnynt; a<br>• sicrhau bod y Cynllun Llesiant Lleol yn cyflwyno gweledigaeth sy'n fwy gobeithiol ac uchelgeisiol ar gyfer 'lle' gyda chydflaenoriaethau a gyd-gynhyrchwyd gan bartneriaid, ar y cyd â dinasyddion, i roi sylw i heriau y cytunwyd arnynt.<br><br>**A3 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau cyhoeddus angen meddwl yn wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12). Argymhellwn fod cynghorau yn** | | Mae cynigion ar gyfer gwella yn cael eu hystyried gan adrannau perthnasol a bydd cyfres o gamau yn cael eu datblygu maes o law. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | **darparu ymateb sy'n fwy effeithiol i'r heriau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu trwy:**<br>• sicrhau bod gan gomisiynwyr gwasanaethau ddata ar gostau a gwybodaeth ansoddol ar y dewis llawn o opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau; a<br>• defnyddio barn dinasyddion am ba mor fforddiadwy, hygyrch, digonol, derbyniol ac 'ar gael' y mae gwasanaethau'r cyngor i deilwra sut i ddarparu ac integreiddio gwasanaethau. | | |
| **Tachwedd 2018** | **Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig** | **A4 Er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau gwledig, mae ar wasanaethau angen gwneud pethau'n wahanol yn y dyfodol (gweler paragraffau 3.1 i 3.12).**<br>**Argymhellwn fod cynghorau yn gwneud mwy i ddatblygu cydnerthedd cymunedol a hunangymorth trwy:**<br>• weithio gyda chyrff perthnasol fel Canolfan Cydweithredol Cymru i gefnogi menter gymdeithasol a modelau busnes mwy cydweithredol;<br>• darparu allgymorth cymunedol wedi'i deilwra ar gyfer y rheini sy'n wynebu rhwystrau niferus sy'n eu hatal rhag defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a chael gwaith;<br>• gwella ac adnabod rôl cynghorau tref a chymuned trwy fanteisio ar eu gwybodaeth leol a'u cefnogi i wneud mwy;<br>• annog ymagwedd fwy integredig at ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig trwy sefydlu hybiau cymunedol sy'n rhychwantu gwasanaethau cyhoeddus, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;<br>• galluogi gweithredu lleol trwy gefnogi trosglwyddiad asedau cymunedol ac adnabod yr asedau hynny y byddai'n addas eu trosglwyddo, a sicrhau bod y systemau cywir ar waith i wneud i bethau ddigwydd; a<br>• gwella arweiniad yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb, hyfforddiant a choetsio ac annog unigolion i wirfoddoli. | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **2017-2018** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338803/annual-improvement-report-2017-18-welsh.pdf | | | | |
| **Gorffennaf 2018** | **Adolygu cyflwr a defnydd o gerbydau'r fflyd wen**<br>Adolygiad i asesu a yw'r Awdurdod wedi cymryd pob cam rhesymol i reoli'r potensial am ddefnydd amhriodol o'i gerbydau fflyd wen mewn modd effeithiol yn unol â'i drefniadau llywodraethu. | Mae gan yr Awdurdod systemau i reoli defnydd preifat o'i gerbydau fflyd wen, fodd bynnag nid yw ei drefniadau llywodraethu yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a chyfyngiadau fel mater o drefn. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br><br>• bod gan yr Awdurdod bolisi ar gyfer rheoli ei gerbydau fflyd wen ond mae angen ei ddiwygio;<br><br>• mae'n rhaid defnyddio cofnodion gyrwyr i gofnodi manylion yr holl deithiau a wneir mewn cerbydau fflyd wen, fodd bynnag nid ydynt yn cael eu llenwi a'u dychwelyd yn gyson, ac nid yw rheolwyr yn craffu arnynt yn ddigonol; ac<br><br>• mae rheolaethau ar waith i reoli'r fflyd wen ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n effeithiol i reoli'r holl risgiau tebygol. | **Polisi a chanllawiau ar gyfer Cerbydau'r fflyd wen**<br>C1 Dylai'r Awdurdod adolygu a diweddaru ei bolisi a'i ganllawiau ar gyfer cerbydau'r fflyd wen, yn arbennig:<br><br>rheolaethau perthnasol a gofynion cyfreithiol a threth;<br>• cynnwys canllawiau gweithredu i reolwyr a staff;<br><br>• sicrhau bod staff ar bob lefel yn deall ac yn atebol am gydymffurfio â'r polisi a'r rheolaethau;<br><br>• rhoi gwybod i'r holl staff am unrhyw bolisïau rheoli fflyd sydd wedi'u diwygio, gan gynnwys cofnodion cerbydau, tracio cerbydau a gofynion gorfodol; ac<br><br>• adolygu lleoliadau gorsafoedd cerbydau i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf CThEM a'r lleoliad sydd angen y cerbyd.<br><br>**Cofnodion cerbydau** | Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu polisïau a chanllawiau i wneud yn siŵr bod cerbydau'r fflyd wen yn cael eu defnyddio'n iawn.<br><br>Mae hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu i bawb sydd yn defnyddio cerbydau'r fflyd wen.<br><br>Rhaid cwblhau llyfrau log ac maent yn cael eu monitro gan reolwyr llinell ac adran y fflyd.<br><br>Caiff adolygiadau eu cynnal yn rheolaidd i groeswirio gwybodaeth a gedwir gan adran y fflyd a chaiff ei ddiweddaru lle bo'n addas (pob 12 mis).<br>Wrth gyfnewid cerbydau, caiff ffurflenni trosglwyddo eu llenwi a'u hanfon i adran y fflyd.<br><br>Mae'r materion o'r cartref i'r gwaith wedi cael eu nodi mewn polisi a sticer y tu mewn i gaban cerbydau.<br>Cynghorir gyrwyr bod cerbydau wedi eu hyswirio ar gyfer defnydd busnes ac nid o'r cartref i'r gwaith.<br><br>Gyrwyr yn arwyddo pob siwrnai, a rheolwyr llinell yn arwyddo'r daflen<br><br>Taflenni llyfrau log yn cael eu uwchlwytho'n fisol ar system Rheoli'r Fflyd, taflenni anghyflawn yn cael eu hanfon yn ôl i'r gyrrwr/orsaf ar ffurf sgan, rhaid cael yr holl wybodaeth cyn y bydd y dasg wedi ei chwblhau.<br>Monitro MPG cerbydau ar FMS, eu cymharu'n fisol, archwilio achosion uwch ben 10mpg.<br><br>Cyfarwyddiadau ar ddefnyddio Telemateg ar gael i Reolwyr yn ogystal â gwybodaeth mewngofnodi, hyfforddiant wedi ei gynnig hefyd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | C2 Dylai'r Awdurdod adolygu ei system cofnodi cerbydau, yn arbennig:<br><br>• nodi ar y cofnod na chaniateir defnydd preifat o'r cartref i'r orsaf, oni bai bod eu dyletswyddau yn ei gwneud yn ofynnol i deithio i gyfeiriad cartref, er enghraifft ar alwad;<br><br>• cynnwys ymwadiadau priodol yn y cofnodion cerbydau y mae'n rhaid i'r gyrrwr eu llofnodi;<br><br>• sicrhau bod taflenni cofnodion cerbydau wedi'u llenwi a'u cyflwyno yn fisol i'r adran briodol; a<br><br>• chysoni cofnodion cerbydau ag adroddiadau'r rheolwyr ar ddefnydd tanwydd.<br><br>**Tracio cerbydau**<br>C3 Dylai'r Awdurdod gryfhau ei drefniadau llywodraethu trwy:<br><br>• sicrhau bod yr holl reolwyr sydd â chyfrifoldebau am fflyd yn deall y system tracio cerbydau a bod y system ar gael i bob un; | Adran y Fflyd yn gwirio adroddiadau 3am ar hap ac yn herio unrhyw wyriadau.<br><br>Adran y Fflyd i dynnu sylw uwch reolwyr at ymatebion anfoddhaol neu heb eu derbyn. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | • cyflwyno gofyniad gorfodol i reolwyr â chyfrifoldebau am fflyd fonitro'n rheolaidd y system tracio cerbydau ac yn arbennig defnyddio'r adroddiadau 3am i dracio symudiadau cerbydau a herio unrhyw anghysondebau; a<br><br>• sicrhau bod rheolwyr a staff yn ymateb yn briodol i unrhyw heriau a godir gan reolwyr adrannol. | |
| | | | | |
| **2017-2018** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338803/annual-improvement-report-2017-18-welsh.pdf | | | | |
| **Tachwedd 2017** | **Llythyr archwilio blynyddol 2016-17**<br>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; ac<br><br>• mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei ddefnydd o adnoddau. | Dim | |
| | | | | |
| **2017-2018** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338803/annual-improvement-report-2017-18-welsh.pdf | | | | |
| **Cynllunio ac adrodd ar welliant** | | | | |
| **Ebrill 2017** | **Archwiliad o'r cynllun gwella blynyddol**<br>Adolygiad o gynlluniau | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant. | Dim | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni amcanion gwella. | | | |
| | | | | |
| **2017-2018** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338803/annual-improvement-report-2017-18-welsh.pdf | | | | |
| **Tachwedd 2017** | Archwiliad o'r asesiad blynyddol o berfformiad Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad yr Awdurdod. | Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant. | Dim | |
| | | | | |
| **2017-2018** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338803/annual-improvement-report-2017-18-welsh.pdf | | | | |
| **Gwaith dilynol 2016-17** | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau – cyhoeddwyd ym mis Hydref 2017**<br>Yn ystod 2016- 17 gwnaethom ni adolygu Effeithiolrwydd dull yr Awdurdod o reoli ei dir a'i adeiladau gan gynnwys rhannu cyfleusterau. Gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella a gwnaethom ni archwilio cynnydd o ran cyflawni'r rhain. | Mae gwaith yn parhau i wella adrodd ariannol a'r amgylchedd rheoli ariannol yn gyffredinol. Mae camau wedi'u cymryd i sicrhau bod yr agweddau meintiol ac ansoddol ar y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol ac Adrodd Ariannol yn cael eu bodloni. Adroddwyd hyn i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod ym mis Mehefin 2018 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.<br><br>Mae Rheolwyr Adrannol wedi'u cyfarwyddo ar ofynion cynnal cofrestrau asedau cywir a chynhwysfawr a sicrhau bod asedau wedi'u dosbarthu'n gywir. Mae'r gwaith o ddiweddaru cofrestrau yn parhau, ac mae'r adran Cyllid yn rhoi cyngor ac arweiniad.<br><br>O ran gwneud penderfyniadau yn rhan o reoli'r rhaglen gyfalaf, mae'r | Dim | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | Awdurdod erbyn hyn yn rhoi mwy o bwyslais nag y byddai wedi'i wneud yn flaenorol ar arfarnu opsiynau yn hytrach na pharhau yn syth â chyfarpar newydd sydd yr un peth a'r hen gyfarpar. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar egluro'r angen presennol a'r angen yn y dyfodol ac ar benderfynu pa opsiynau eraill a allai fod, er enghraifft yr ystyriaeth ddiweddar o ddyfodol cyfleusterau hyfforddi'r Gwasanaeth Tân yn Nolgellau.<br><br>Yn dilyn newid personél ar lefel yr uwch reolwyr yn ddiweddar, mae dwy swydd Prif Swyddog Cynorthwyol wedi'u cyflwyno. Bwriedir gwneud rhagor o waith i adlewyrchu'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn dogfennau corfforaethol.<br><br>Ar lefel Cymru gyfan, nid yw'r gwaith o gytuno ar fesurau cyffredin i asesu dangosyddion allweddol o ran tir ac adeiladau wedi'i wneud hyd yn hyn (o bosibl trwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol). Fodd bynnag, rhagwelir y bydd rhai o'r syniadaeth yn hyn o beth yn gallu ffurfio rhan o ailasesiad cynlluniedig yr Awdurdod yn ddiweddarach eleni ar gyfer ei ddyfarniad lefel platinwm yn y Safon Iechyd Corfforaethol | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | sy'n cynnwys cynaliadwyedd a materion sy'n ymwneud ag adeiladau. | | |
| | | | | |
| **2016 – 2017** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338801/annual-improvement-report-2016-17-welsh.pdf | | | | |
| **Defnydd o adnoddau** | | | | |
| **Tachwedd 2016** | **Llythyr archwilio blynyddol 2015-16**<br>Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. | • Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau'n gysylltiedig ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau.<br><br>• Yr wyf yn fodlon bod gan Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau ei fod yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. | Dim | |
| | | | | |
| **2016 – 2017** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338801/annual-improvement-report-2016-17-welsh.pdf | | | | |
| **Archwiliad perfformiad lleol yn seiliedig ar risg** | | | | |
| **Hydref 2017** | **Adolygiad o drefniadau rheoli asedau** | Mae trefniadau llywodraethu clir yn cynorthwyo'r Awdurdod i reoli ei dir a'i asedau adeiladu yn | Cryfhau trefniadau rheoli asedau drwy:<br>C1 Rhoi diffiniad clir o'r | Wedi ei gyflawni mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn 2018. Dangosyddion meincnodi heb eu datblygu dros Gymru. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | effeithiol, fel eu bod yn addas i ddibenion gweithredol, ond mae lle i wella hyn eto.<br>Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br>• mae trefniadau llywodraethu clir yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei gynlluniau rheoli asedau ar gyfer tir ac adeiladau, ond gallai'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer gwneud penderfyniadau fod yn gliriach;<br>• mae'r adeiladau'n addas i'r diben ac wedi'u cynnal yn dda ac mae'r Gwasanaeth yn datblygu cyfleoedd i gydweithio a chydleoli á gwasanaethau brys eraill; ac<br>• mae'r Awdurdod yn gwerthuso ei fuddsoddiad mewn tir ac adeiladau yn rheolaidd, ond ni cheir rhyw lawer o gymharu er mwyn mesur cynnydd yn erbyn sefydliadau tebyg. | rolau a'r cyfrifoldebau o ran penderfynu ar gyfer rheoli asedau, ac o fewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod.<br>C2 Cytuno ar fesurau cyffredin ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru er mwyn asesu dangosyddion allweddol yn gysylltiedig â thir ac adeiladau, fel bo modd cymharu perfformiad ac adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. | |
| | | | | |
| **2016 – 2017** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338801/annual-improvement-report-2016-17-welsh.pdf | | | | |
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | | |
| **Tachwedd 2016** | **Asesiad archwilio perfformiad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru**<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig yr Awdurdod o'i berfformiad. | Asesiad archwilio perfformiad blynyddol<br>Swyddfa Archwilio Cymru<br>Adolygiad o asesiad cyhoeddedig yr Awdurdod o'i berfformiad. | Dim. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| **2016 – 2017** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338801/annual-improvement-report-2016-17-welsh.pdf | | | | |
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | | |
| **Gwaith dilynol 2015-16** | Yn ystod 2015-16, buom yn adolygu trefniadau diogelwch tân yr Awdurdod er mwyn asesu'r modd<br>yr oedd yn cynllunio gweithgarwch;<br>sut yr oedd yn cael ei gyflawni<br>ac a oedd modd gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd<br>y gweithgarwch.<br>Cyhoeddwyd ein hadroddiad ym mis Awst 2016.<br>Gwnaed y cynigion canlynol ar gyfer gwella:<br>C1 Ar lefel genedlaethol, datblygu<br>a chytuno ar egwyddorion er mwyn gwerthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyraethau,<br>digwyddiadau a gwaith atal cyfredol sydd yn rhoi sylw i:<br>• Berthnasedd - i ba raddau y bydd ymyraethau'n esgor ar ganlyniadau ystyrlon.<br>• Capasiti a gallu - defnydd effeithiol o adnoddau. | Derbyniodd cyfarfod Panel Gweithredol yr Awdurdod yr adroddiad ar drefniadau diogelwch tân ym mis Hydref 2016.<br>Mae'r Awdurdod wedi gwneud y cynnydd canlynol:<br>C1 Yn ystod y cyfarfod ôl-friffio ag awduron yr adroddiad, cydnabuwyd mai un o wendidau'r gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru a'r DU oedd gwerthuso.<br>Mae amryw o resymau wrth wraidd hyn, yn ogystal â'r anhawster wrth greu'r cysylltiad rhwng gweithgarwch atal a gostyngiad mewn digwyddiadau. Mae'r Awdurdod wedi nodi bod cyfuniadau o weithgareddau atal yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau nifer y digwyddiadau, y marwolaethau a'r anafiadau, ond mae'n anodd iawn cael tystiolaeth i ddangos pa weithgarwch fu'n fwyaf llwyddiannus, oherwydd mae hynny'n golygu ceisio mesur rhywbeth sydd heb ddigwydd.<br>Oherwydd yr anawsterau hyn, ni nodwyd enghreifftiau penodol o unrhyw werthusiadau neu ddulliau arfer da.<br>Bu felly'n anodd datblygu a chytuno | Byddwn yn parhau i fonitro Cynnydd yn rhan o'n hasesiad o welliant yn 2017-18. | Er nad oes arweinlyfr gwerthuso sengl wedi cael ei gynhyrchu mae'r Gwasanaeth yn dal i werthuso o'r cychwyn cyntaf yn ystod digwyddiadau mawr. Mae'r ymgyrch nwyddau gwyn yng Nghymru yn enghraifft o'r asesiadau a gwerthusiadau cyffredinol, ac mae'r gweithgarwch yn cael ei gytuno dros Gymru yn ystod y cyfnod cynllunio. Mae'r broblem a amlygwyd eisoes ynghylch mesur gweithgarwch sydd heb ddigwydd yn dal i fodoli. Mae nifer o brosiectau'r Gwasanaeth yn ddibynnol ar arian grant i'w cyflenwi, gan gynnwys y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol, ac mae'r ceisiadau cyllid ar gyfer y meysydd hyn yn nodi'r canlyniadau disgwyliedig a'r dangosyddion perfformiad o'r cychwyn cyntaf. Er na ellir gwarantu y bydd y meysydd hyn yn llwyddiannus bob amser, mae'r astudiaethau achos yn dangos cyswllt glir rhwng y gweithgarwch a ddarparwyd a'r amcanion gwella cenedlaethol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | • Effeithlonrwydd - dull o fesur sut mae adnoddau a mewnbwn yn cael eu trosi'n ganlyniadau a deilliannau.<br>• Effeithiolrwydd - i ba raddau y llwyddwyd i gyflawni ymyraethau, neu y disgwylir eu cyflawni, gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd - y budd yn parhau ar ôl cwblhau'r mewnbwn cychwynnol. Y tebygolrwydd o fudd hirdymor.<br>• Gwerth am arian - y cydbwysedd rhwng cost un mewnbwn a mentrau eraill.<br>• Materion cydraddoldeb. | ar egwyddorion ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi parhau i feithrin ei sgiliau ei hun yn gysylltiedig â gwerthuso, ac erbyn hyn mae'n gwerthuso ei holl ymgyrchoedd neu weithgareddau atal graddfa fawr.<br>Mae'r angen i gynnal gwerthusiadau cadarn wedi'i ymwreiddio yn arferion gwaith yr holl waith prosiect. Mae gwerthusiad bellach yn agwedd a ystyrir o'r cychwyn cyntaf, ac mae mesuriadau perfformiad clir wedi'u cynnwys yn y cylch gorchwyl cychwynnol neu'r dogfennau cychwyn prosiect.<br>Dyma rai o'r enghreifftiau mwyaf diweddar lle cwblhawyd gwerthusiadau cadarn:<br>• Gweithgarwch peilot cyd-ymateb<br>• Tîm Cymorth Cymunedol<br>• Be a Nice Guy (BANG) - Gweithgarwch Atal dros Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt<br>• Ymgyrch Pobl Hŷn<br>• Ymgyrch Coginio Diogel<br>• Recriwtio drwy'r System ar Ddyletswydd yn ôl Galw (RDS)<br>Mae'r Awdurdod yn parhau i rannu gwerthusiadau prosiect â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru er mwyn datblygu ymagwedd gyffredin lle bo hynny'n briodol. Wrth i'r mentrau fynd rhagddynt, gallai pecyn cymorth cytunedig ar gyfer gwerthuso ddod i'r amlwg. | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| **Gwaith dilynol 2015-16** | C2 Ar lefel genedlaethol, Sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a byrddau iechyd perthnasol er mwyn canfod nifer yr anafiadau heb eu hadrodd yn deillio o danau, a galluogi adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed neu eiddo risg | C2 Ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a byrddau iechyd perthnasol er mwyn canfod nifer yr anafiadau heb eu hadrodd yn deillio o danau, a galluogi adnabod pobl a allai fod yn agored i niwed neu eiddo risg uwch. | Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn rhan o'n hasesiad o welliant yn 2017-18. | Wedi ei gau |
| | | | | |
| **2016-2017** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/338801/annual-improvement-report-2016-17-welsh.pdf | | | | |
| **Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio** | | | | |
| **Gorffennaf 2017** | rif Gynghorydd Tân ac .chub Yn fuan yn 2017, ynhaliodd y Prif iynghorydd Tân ac Achub dolygiad thematig: Dysgu wersi er mwyn osgoi igwyddiadau sy'n peryglu iogelwch - Pa mor dda y ıae Awdurdodau Tân ac .chub yng Nghymru yn ysgu gwersi yn sgil igwyddiadau er mwyn wella diogelwch y yhoedd ac ymladdwyr tân. | Cynhaliwyd adolygiad thematig o dri Awdurdod Tan ac Achub Cymru, yn canolbwyntio ar ba mor dda yr oeddent yn dadansoddi damweiniau gwirioneddol a damweiniau fu bron a digwydd, ac yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd â'u gweithwyr. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at arferion da ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella er mwyn sicrhau bod yr Awdurdodau yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac yn dal ati i wella'u prosesau.<br>Mae copi llawn o'r adroddiad ar gael ar wefan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub. | **Gwnaed yr argymhellion canlynol:**<br>1. Cyn gynted ag y bo'r dadansoddiad cychwynnol o'r bylchau wedi'i gynnal, ar ôl derbyn gwersi i'w dysgu o ffynhonnell allanol, dylai Awdurdodau Tân ac Achub sicrhau bod y broses yn cael ei chofnodi'n gywir. Mae cofnodi'r broses o wneud penderfyniad ynghylch mabwysiadu, neu beidio â mabwysiadu, argymhellion cenedlaethol yn hanfodol.<br>2. Dylai Awdurdodau sicrhau bod gwersi ynghylch risg yn cael eu rhaeadru drwy'r sefydliad yn amserol, gan ganolbwyntio ar y staff hynny fyddai'n elwa fwyaf o'r dysgu o safbwynt lleihau risg. | Wedi sefydlu fforwm dysg gweithredol sydd yn cynnwys Rheolwyr Maes a HODS. Cynhelir cyfarfodydd perfformio rheolaidd ac mae camau gweithredu a chynnydd yn cael ei fonitro a'i gofnodi. Mae'r fforwm yn gyfrifol am asesu effaith a rheoli dysg yn fewnol (PSS / T&D), NOG, NOL a JOL.<br><br>Mae'r adolygiad thematig yn cael ei oruchwylio a'i fonitro gan y Fforwm Dysg Gweithredol.<br><br>Mae unrhyw wersi yn cael eu blaenoriaethu gan y Fforwm Dysg Gweithredol gan ddefnyddio'r sianel gyfathrebu fwyaf addas. Er enghraifft y system diogelwch Fflach sydd wedi cael ei efelychu ledled Cymru gyda'r wybodaeth a rannwyd. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | 3. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfryngau a ddefnyddir i gyfathrebu ynghylch gwersi i'w dysgu ymhlith grwpiau amrywiol o staff yn briodol i'w hanghenion, yn nodi'n glir y rhesymau dros ddod â nhw i'w sylw ac yn cael eu cyfleu mewn fformat ac mewn dull fydd yn golygu y bydd y gynulleidfa yn eu cofio. Dylid ystyried cynnwys dulliau cylch cyfan hefyd er mwyn hysbysu'r rheiny sy'n codi materion pan fo newidiadau sylweddol i'w gwneud.<br>4. Dylai Awdurdodau edrych ar gyflwyno systemau sicrwydd ansawdd sy'n profi'n rheolaidd pa mor dda y mae gwersi ynghylch risg yn cael eu derbyn a'u cadw.<br>5. Dylai Awdurdodau sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth a ddaw drwy'r prosesau Ôl-friffio Poeth yn cael ei chofnodi a'i rhannu ble bo hynny'n briodol.<br>6. Dylai Awdurdodau adolygu eu prosesau Asesiadau Risg Dadansoddol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben a'u bod yn bwydo i'r prosesau ehangach o gofnodi dysgu sefydliadol. | Mae rhybuddion gweithdrefnol hefyd yn cael eu defnyddio i atgyfnerthu gwersi gweithredol.<br><br>Mae erthyglau PSS yn Y Fflam yn amlygu'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn ymarferion, archwiliadau, asesiadau meistroli, sicrwydd gweithredol. Mae archwiliadau PSS hefyd wedi cael eu defnyddio i atgyfnerthu negeseuon allweddol wyneb yn wyneb. Bydd diweddariadau sgiliau craidd ar gyfer FDS hefyd yn cael eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth rheolwyr FDS a'u rôl cefnogi gorsafoedd.<br><br>Defnyddir archwiliadau ac ymarferion gweithle i roi sicrwydd. Bwriad i alinio archwiliadau i'r rhaglen cynnal fisol ar PDR V5 yn y dyfodol i roi sicrwydd.<br><br>Defnyddir Y Fflam i rannu gwersi gweithredol a ddysgwyd. Darperir ôl-friffiadau i staff ac fe'i defnyddir i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau mawr.<br><br>Byddwn yn treialu'r system ôl-friffio poeth drwy RMS ym mis Ebrill. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn dilyn |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | 7. Dylai Awdurdodau sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd i ddysgu mewn amgylcheddau critigol o ran risg drwy hyfforddiant realistig, yn enwedig o gofio'r gostyngiad mewn digwyddiadau 'tân' dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hi hefyd yn bwysig bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal gan bersonél sy'n gweithio gyda'i gilydd yn eu criwiau arferol.<br><br>8. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle ceir arfer da lle mae'r systemau sy'n cael eu datblygu yn llawn addewid i'r dyfodol. Argymhellir bod y systemau a'r prosesau hyn, yn enwedig y polisïau hynny ar fonitro a sicrwydd gweithredol, yn cael eu rhannu drwy'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol er mwyn mabwysiadu dulliau cyffredin ac osgoi ail-wneud gwaith. | digwyddiadau yn cael eu nodi, eu dadansoddi a'u gweithredu, lle bo angen.<br>Mae arfau wedi cael eu cyflwyno gyda'r IC NOG newydd ac mae ymarferion ac archwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau eu hansawdd. Mae angen cwblhau gwaith mewnblannu pellach i wneud yn siŵr bod staff yn hyderus i ddefnyddio'r system.<br><br>Yn Nolgellau mae gennym ni leoliad realistig ar gyfer tanau mewn amgylchedd adeiledig. Mae archwiliadau gweithle yn cynnwys senarios realistig, rydym ni'n cwblhau ymarferion mewn safleoedd risg uchel ac yn ddiweddar rydym ni wedi prynu XVR a fydd yn ein galluogi i ddynwared digwyddiadau yn realistig.<br><br>Mae NIC Ops yn fforwm gwerthfawr i rannu a thrafod ymarferion proffesiynol a gwersi a ddysgwyd. Amlygwyd hyn fel arfer da yn ystod Ymweliad HSE yn ddiweddar. |
| | | | | |
| **Cynlluniau ac adroddiadau gwella** | | | | |
| **Medi 2016** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337316/9i-adroddiad-gwella-swyddfa-archwilio.pdf | | | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| **Medi 2016** | Archwilio Cynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 yr Awdurdod | Ym mis Mai 2015 a mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. | Dim | |
| **Medi 2016** | Adolygu asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2014-15 | Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. | Dim | |
| | | | | |
| **Medi 2016** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337316/9i-adroddiad-gwella-swyddfa-archwilio.pdf | | | | |
| **Medi 2016** | Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nid oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn | Nodwyd gennym fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân a bod ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nad oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn.<br><br>13 Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân sy'n ymwneud â safleoedd | **C1** Ar lefel genedlaethol, datblygu egwyddorion o ran sut i werthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyriadau, digwyddiadau a gwaith atal presennol sy'n ystyried y canlynol, a chytuno arnynt:<br><br>• Perthnasedd – y graddau y mae ymyriadau yn cyflawni canlyniadau ystyrlon.<br>• Adnoddau a gallu – defnyddio adnoddau yn effeithiol.<br>• Effeithlonrwydd – mesur sut y caiff adnoddau a | Er nad yw'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu fframwaith werthuso sengl ar gyfer gwerthuso ei weithgarwch mae yn sicrhau ei fod yn ystyried gwerthuso ei brosiectau o'r cyfnod cynllunio, yn lleol a chenedlaethol e.e. Ymgyrch Nwyddau Gwyn, Dweud Nid Difaru. Mae'r Adran Diogelwch Tân i Fusnesau yn parhau i weithio i'r strategaeth a ysgrifennwyd yn 2017. Pennir y rhaglen archwilio yn seiliedig ar ffactorau ehangach na'r blynyddoedd cynt megis cynnwys risg i fywydau, risg i ddiffoddwyr tân, risg i'r amgylchedd, tueddiadau cenedlaethol ac effaith economaidd oherwydd colled.<br><br>Nod GTAGC ydi ceisio archwilio trawstoriad o eiddo ar draws pob math o wahanol eiddo. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | 1 Yn yr adroddiad hwn defnyddir y termau 'diogelwch tân cymunedol' (sy'n cwmpasu safleoedd domestig a mentrau cymunedol) a 'diogelwch tân busnesau' i ddisgrifio meysydd ffocws penodol. | ac mae dull yr Awdurdod o gynnal gweithgareddau diogelwch tân cymunedol yn seiliedig ar gynlluniau clir sy'n adlewyrchu anghenion lleol a disgwyliadau cenedlaethol;<br><br>b yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân cymunedol, mae'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer diogelwch tân busnesau yn llai eglur; a<br><br>c cheir amrywio o ran yr adnoddau a ddarperir ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân gan Awdurdodau Tân ac Achub unigol ac mae arian grant y llywodraeth yn lleihau.<br><br>Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo diogelwch tân cymunedol drwy gynnal gweithgareddau diogelwch tân ac atal tân helaeth: ac mae'r Awdurdod yn llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ymyrryd ac atal er mwyn hyrwyddo diogelwch tân cymunedol; ac<br><br>b er bod nifer y safleoedd annomestig hysbys wedi cynyddu, ni fu | mewnbynnau eu troi'n ganlyniadau.<br>• Effeithiolrwydd – y graddau y cyflawnwyd ymyriadau neu y disgwylir iddynt gael eu cyflawni gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd – parhad buddiannau ar ôl i fewnbynnau cychwynnol gael eu cwblhau. Y tebygolrwydd o fuddiannau hirdymor.<br>• Gwerth am arian – y ffordd y caiff cost un mewnbwn ei gwrthbwyso â mentrau eraill.<br>• Materion sy'n ymwneud â chydraddoldebau. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | Nid oes unrhyw ddull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgarwch a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol, ond dim ond darlun rhannol o berfformiad y maent yn ei roi: ac mae awdurdodau tân ac achub yn cynnal gweithgareddau diogelwch tân â diben cyffredin ac er y caiff gweithgarwch ei fonitro nid oes unrhyw ddull cyffredin o werthuso pa mor effeithlon y caiff ei gyflawni;<br><br>b defnyddir archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn helaeth er mwyn mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch tân domestig a'u lliniaru ond prin yw'r meini prawf gwerthuso; ac<br><br>c nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei defnyddio mewn modd cydgysylltiedig er mwyn llywio gweithgareddau diogelwch tân ac mae'r ffaith nad yw data yn cael eu rhannu rhwng partneriaid yn rhwystr ar lefelau gweithredol. | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| **Mehefin 2014** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1187/wao_north_wales_fire_and_rescue_authority_air_welsh_2014.pdf | | | | |
| **Mehefin 2014** | Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a 2014-15, a chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un | Nodwyd gennym, yn 2012-13, er bod nifer y marwolaethau a'r anafi adau a achoswyd gan danau mewn anheddau wedi cynyddu oherwydd un tân bwriadol, fod yr Awdurdod wedi cyflawni gwelliannau yn ei swyddogaethau craidd. Daethom i'r casgliad hwn am fod yr Awdurdod:<br><br>• wedi gweithio'n galed i leihau nifer y tanau y mae'n ymateb iddynt mewn anheddau drwy gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau ataliol;<br><br>• yn ymgysylltu'n dda â phartneriaid er mwyn annog eiddo annomestig mwy diogel;<br><br>• yn cynnal rhaglen o weithgareddau a reolir yn dda er mwyn lleihau nifer y tanau bwriadol;<br><br>• yn cydweithio â phartneriaid er mwyn annog diogelwch ar y ffyrdd; ac<br><br>• wedi parhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol a gwydn yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol. | C1 Atgyfnerthu'r broses cynllunio gwelliant drwy wneud y canlynol:<br><br>• adlewyrchu'n glir ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn cynlluniau gwella a'u datblygiad; a<br><br>• datblygu camau gweithredu, mesurau a threfniadau adrodd cysylltiedig ar gyfer 2014 15 Amcanion Gwella dau a thri.<br><br>C2 Gwella'r adroddiad ar yr Asesiad o Berfformiad drwy wneud y canlynol:<br><br>• defnyddio mwy o ddata mwy;<br><br>• sicrhau bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'i fodolaeth;<br><br>• llunio crynodeb mwy amserol o'r Asesiad;<br><br>• sicrhau bod yr Asesiad ar gael mewn amrywiaeth eang o fformatau; a | Yn **Asesiad o Berfformiad Awdurdodau 2013-14** roedd cam gweithredu rhif 4 yn argymell archwilio ac adolygu ffactorau a all gyfrannu at ba mor agored i danau ydi rhai pobl, a'u croesgyfeirio lle bo angen gyda'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cafodd hyn ei gyflawni.<br><br>PSC Shân Morris<br><br>PSC Shân Morris |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15. | Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) 2009 er y gellid atgyfnerthu ei drefniadau ymhellach.<br>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br><br>• cyhoeddodd yr Awdurdod ei Asesiad o Berfformiad ar gyfer 2012-13 o fewn terfynau amser statudol, gwerthusodd ei lwyddiant wrth gyfl awni ei mcanion gwella yn glir a gwnaeth gynnwys yr holl ddangosyddion perfformiad strategol a chraidd cenedlaethol gofynnol;<br><br>•disgrifi odd yr Asesiad ddull yr Awdurdod o gydweithredu; a<br><br>•gellid gwneud gwelliannau pellach er mwyn atgyfnerthu'r defnydd a wneir o ddata cymharol a sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o'r Asesiad.<br><br>Nodwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ond gellir atgyfnerthu trefniadau cynllunio busnes a bydd angen arweinyddiaeth bendant i weithredu'r newidiadau sydd eu | • gwahodd sylwadau neu gyfraniadau penodol gan ddinasyddion a'r gymuned am yr Asesiad. | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | hangen er mwyn ateb yr heriau ariannol a wynebir yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br><br>• mae gwaith cynllunio busnes wedi'i sefydlu'n dda ac mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan, ond nid yw gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hystyried yn benodol wrth bennu amcanion gwella ac mae'r trefniadau ar gyfer gwerthuso a chyfl wyno adroddiadau yn ystod 2014-15 wrthi'n cael eu datblygu;<br><br>• parheir i reoli heriau ariannol yn effeithiol, er y bydd graddau'r newid sydd ei angen yn parhau i fynnu arweinyddiaeth a chyfeiriad pendant;<br><br>• mae mentrau i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn parhau;<br><br>• mae trefniadau digonol ar waith i fodloni deddfwriaeth Datgelu er Budd y Cyhoedd; ac<br><br>• mae gwaith yn parhau gydag Awdurdodau Tân ac Achub eraill yng Nghymru i ddatblygu gwybodaeth sylfaenol Adnoddau Dynol cyson. | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfi o â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2014-15. | | |
| | | | | |
| **Ebrill 2013** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1186/north_wales_fire_air_welsh_2013.pdf | | | | |
| **Ebrill 2013** | Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyfl wyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ddefnyddio gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ynghyd â gwaith a gynhelir ar ei ran gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau mewn | Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod yr Awdurdod yn rheoli ei raglen gwella yn dda, ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Cafwyd gennym fod yr Awdurdod yn gwneud cynnydd o ran cyflawni gwelliant yn ei swyddogaethau craidd. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:<br><br>• ymatebwyd i lai o danau mewn anheddau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bu gostyngiad yn nifer y marwolaethau a'r anafiadau;<br><br>• ymatebwyd i lai o danau ar safleoedd annomestig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau;<br><br>• ymatebwyd i lai o danau bwriadol yn ystod 2011-12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw farwolaethau a gostyngodd nifer yr anafiadau; | C1 Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, yn arbennig:<br><br>• datblygu dull arfaethedig, cydgysylltiedig a mwy strategol o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn lleihau nifer yr achosion o ddyblygu gwaith a sicrhau'r effaith a'r canlyniadau mwyaf;<br><br>• nodi, diffinio a blaenoriaethu pa fath o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd a wasanaethir ganddo;<br><br>• nodi'r adnoddau sydd eu hangen a manteisio ar orsafoedd tân lleol ac allgymorth i'w hannog i ymgysylltu â'u cymunedau lleol; | Mae ein Strategaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol yn nodi'n hegwyddorion a'r dull y byddwn ni'n ei ddilyn i sicrhau ein bod ni'n parhau i wella ein gwaith i gyfathrebu ac ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'n nodi'r meysydd cyfathrebu corfforaethol y byddwn ni'n mynd i'r afael â nhw a'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i'n cefnogi i gyflawni'n nodau corfforaethol a'n hamcanion gwella.<br><br>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar sawl maes, gan gynnwys:<br>• Sicrhau bod y negeseuon sy'n cael eu rhannu gan y Gwasanaeth yn cael eu rhannu mor eang â phosibl.<br>• Codi proffil gwaith y Gwasanaeth trwy chwilio'n rhagweithiol am gyfleoedd cyhoeddusrwydd.<br>• Gweithio ar y cyd gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yng Nghymru a sefydliadau partner i wella cyfathrebu ac atgyfnerthu negeseuon cyffredin.<br>• Darparu cefnogaeth i gydweithwyr ledled y Gogledd i ddod o hyd i gyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus da a gwella proffil y Gwasanaeth yn y gymuned leol.<br>• Datblygu a gwella cyfathrebu gyda'r holl randdeiliaid.<br>• Adolygu a datblygu dulliau cyfathrebu yn barhaus a mesur eu heffaith.<br>Yn y flwyddyn 2018/19, mae'r canlynol wedi ei wneud i gyflawni'r Strategaeth Cyfathrebiadau Corfforaethol;<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltiad<br>• Diffinio, cytuno a chwblhau strategaeth ymgynghori ac ymgysylltu i fynd i'r afael â materion gwella ac ymgysylltu gyda chymunedau lleol. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | perthynas â 2011-12, a'r ffordd y mae'n cynllunio gwelliant ar gyfer 2012-13. | • ymatebwyd i lai o wrthdrawiadau traffig ar y ffordd, gostyngodd nifer yr anafiadau a chafodd llai o yrwyr ifanc ddamweiniau, er bod nifer y damweiniau angheuol a difrifol a'r marwolaethau wedi cynyddu.<br><br>Canfuwyd hefyd fod gwerthusiadau ac adroddiadau'r Awdurdod ar ei berfformiad yn gytbwys, ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd bod yr Awdurdod:<br><br>• wedi llunio barn fwy cytbwys ar ei berfformiad yn 2011-12 nag a wnaeth mewn blynyddoedd blaenorol;<br><br>• wedi cymryd camau cadarnhaol i roi cyhoeddusrwydd i'w Asesiad o Berfformiad;<br><br>• wedi defnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth berthnasol i lunio ei gasgliadau ond nad yw'n gwneud digon i gymharu ei berfformiad â chyrff eraill tebyg.<br><br>I gloi, daethom i'r casgliad fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2012-13. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd: | • datblygu prosesau a strwythurau i helpu i baratoi ac ymdrin â sefyllfaoedd dadleuol a phenderfyniadau anodd posibl - er mwyn asesu lefel y risg a nodi camau lliniarol.<br><br>C2 Datblygu ffyrdd o ddefnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod.<br><br>C3 Bydd defnyddio mwy o ddata cymharol yn helpu'r Awdurdod i esbonio ei gyflawniadau a heriau yn y dyfodol. | Mabwysiadu amrywiaeth o arfau cyfathrebu i gael adborth gan y cyhoedd trwy holiadur ymgynghori ar lein a sicrhau bod canlyniadau'r ymgynghoriad wedi eu cyhoeddi.<br><u>Protocol cyfryngau mewn argyfwng</u><br>• Wedi parhau i reoli protocol ar gyfer delio gyda'r wasg yn ystod argyfwng ac wedi gweithio gydag aelodau'r Grŵp Tasg Rhybuddio a Hysbysu yng Ngogledd Cymru ar weithredu strategaeth cyfathrebu ar y cyd.<br><br><u>Ymgyrchoedd Cyfathrebu</u><br>• Wedi datblygu a rheoli cynllun gwaith ar gyfer digwyddiadau blynyddol ac ymgyrchoedd a sicrhau dull cydlynol ar draws adrannau ac ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys, diffinio, darparu a monitro ymgyrchoedd o safon a oedd yn gysylltiedig â'r amcanion cysylltiedig - mae ymgyrchoedd diweddar wedi hyrwyddo diogelwch coginio, profi larymau mwg a diogelwch nwyddau gwyn. Caiff pob ymgyrch ei werthuso i fonitro llwyddiant a sicrhau gwelliant parhaus.<br><br><u>Y wefan a chyfryngau cymdeithasol</u><br>• Wedi parhau i sicrhau bod ymgyrchoedd cyfathrebu yn ymgorffori'r wefan a chyfryngau cymdeithasol gyda buddion mesuradwy, sy'n profi eu gwerth o ran tanategu ein nodau a'n hamcanion cyfathrebu a monitro parhaus i sicrhau cynnwys pellgyrhaeddol ac effeithiol.<br><br><u>Newid ymddygiad</u><br>• Wedi parhau i weithio'n agos gyda'r tîm diogelwch cymunedol a lleihau tanau bwriadol, yn lleol a thros Gymru, ynghyd â phartneriaid perthnasol, i ddarparu ymgyrchoedd cyfathrebu o safon - gan sicrhau ein bod ni'n gweithio'n arloesol a chreadigol i gyflwyno syniadau a dulliau newydd i gyflawni canlyniadau gwerthfawr. Mae'r ymgyrchoedd wedi cynnwys 'Dawns Glaw' (i leihau tanau glaswellt), ymgyrchoedd recriwtio RDS i annog ceisiadau, ac ymgyrchoedd diogelwch cymunedol megis annog y cyhoedd i amddiffyn aelodau bregus o'r gymuned. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | • mae trefniadau cynllunio busnes wedi'u hymgorffori'n dda, maent yn darparu darlun clir o'r camau arfaethedig ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar y cyfan;<br><br>• bod yr Awdurdod yn parhau i reoli ei heriau ariannol yn effeithiol;<br><br>• gwneir cynnydd da i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol;<br><br>• er bod rhai gwendidau, mae'r Awdurdod yn parhau i wella ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd;<br><br>• mae'r trefniadau llywodraethu wedi cael eu hadolygu'n effeithiol fel rhan o broses Datganiad Llywodraethu Blynyddol yr Awdurdod. | | |
| | | | | |
| **Ionawr 2012** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1185/atagc_adroddiad_gwella_blynyddol_gan_swyddfa_archwilio_cymru_ionawr_2012.pdf | | | | |
| **Ionawr 2012** | Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tan ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac | Canfuwyd bod yr Awdurdod yn gwneud cynlluniau ac yn rhoi trefniadau priodol ar waith i gyflawni gwelliant ar y cyfan. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:<br><br>• mae gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael a'i flaenoriaethau ac ymateb i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella; | C1 Parhau i roi cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith er mwyn cryfhau amcanion gwella a mesurau perfformiad cysylltiedig â sicrhau bod adroddiadau yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned. | Bu i'r Awdurdod ail-nodi ei amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ystod cyfarfod o'r Panel Gweithredol ar 16/07/12 sef: a) cyflwyno neges glir ynghylch prif feysydd blaenoriaeth yr Awdurdod; a b) darparu set o amcanion sydd wedi eu ffocysu'n well o safbwynt monitro ac adrodd.<br><br>Papur:<br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/138619/10_2012-13_improvement_objectives.pdf<br>Cofnodion:<br>https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/3753/exec_panel_160712_cymraeg.pdf<br><br>Monitro Rheolaidd |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | Arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae i'r adroddiad hwn dair prif adran sy'n cwmpasu'r ffordd y mae Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cynllunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwelliant.<br><br>Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi rhoi trefniadau da ar waith i gyflawni gwelliant a'i fod yn perfformio'n dda yn y meysydd y mae'n canolbwyntio arnynt; ond nid yw'r trefniadau cynllunio, gwerthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad yn ddigon cytbwys nac yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau. | • mae gan yr Awdurdod system gadarn o ran rheoli arian ond mae angen arweiniad clir o ystyried faint o newid sydd ei angen;<br><br>• mae trefniadau rheoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant ond ceir rhai gwendidau o ran llywodraethu a pherfformiad; * (para 25 );<br>• mae'r trefniadau presennol ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant; ** (para 26-27); ac<br><br>• mae'r Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg.<br><br>Canfuwyd hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflawni llawer o nodau'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canlynol:<br>• Ar y cyfan, gwnaeth yr Awdurdod gynnydd da o ran cyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11.<br>• Mae mentrau Diogelwch ar y ffyrdd wedi parhau eleni a gwelwyd gostyngiadau yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr ymatebwyd iddynt, damweiniau angheuol a difrifol a marwolaethau, ond er bod nifer yr anafiadau a marwolaethau wedi lleihau | *C2 weithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad Rheoli Gwybodaeth. | Mae fformat yr adroddiadau monitro chwarterol rheolaidd wedi ei ddiwygio i gefnogi monitro yn erbyn Amcan Gwella 1 yn fwy clir.<br><br>Enghreifftiau, sy'n dangos y newid yn y fformat:<br>Adroddiad monitro Ebrill – Mehefin 2012<br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/152006/8_perf_monitoring.pdf<br>Cofnodion<br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/170983/exec_panel_mtg_170912.pdf<br><br><u>Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau</u><br>Mae uwch reolwyr wedi derbyn rhywfaint o hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y fethodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, gyda'r bwriad o ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau cynlluniau adran/busnes dros y misoedd nesaf. (Ychwaneg o hyfforddiant drwy LlC yn Ebrill 2013.)<br>• Adolygu'r Strategaeth TGCh/Gwybodaeth fel ei fod wedi ei ddiweddaru gyda mentrau cenedlaethol a lleol.<br>Pennaeth TGCh wedi cwblhau'r Strategaeth TGCh (2013-2018) yn Hydref 2012 a'i chyflwyno i'r DBST ym mis Tachwedd a'r ddogfen wedi ei chyflwyno i'r Grŵp Llywio Gwybodaeth ym mis Rhagfyr. Adolygiadau pellach o'r strategaethau busnes i'w cwblhau gan y DBST a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol a dogfen i'w chyflwyno i Benaethiaid TGCh eraill ar gyfer craffu.<br><br>• Darparu swyddogaeth Fforwm Diogelwch Gwybodaeth<br>Mae'r Cydlynydd Gwasanaethau Cynnal yn mynychu cyfarfodydd ISG. Mae Diogelwch Gwybodaeth wedi ei gynnwys fel eitem ar yr agenda.<br><br>• Datblygu rhaglen Rheoli Gwybodaeth i'r holl staff<br>Mae'r Cydlynydd Gwasanaethau Cynnal yn cydlynu gyda Kevin Roberts (Rheolwr Hyfforddi) i gael deunydd hyfforddi Rheoli Gwybodaeth ar y system e-ddysgu LearnPro. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | yn gyffredinol gwelwyd cynnydd yn nifer yr anafiadau a marwolaethau ymhlith beicwyr modur.<br><br>• Mae'r Awdurdod wrthi'n datblygu ffyrdd mwy arloesol ac effeithlon o weithio i ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau.<br><br>Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod gan yr Awdurdod systemau i fonitro perfformiad ond bod angen iddo fod yn fwy cytbwys wrth werthuso a chyflwyno adroddiadau ar berfformiad a chanolbwyntio ar amcanion gwella er mwyn cael darlun cliriach o'r cynnydd y mae'n ei wneud yn erbyn ei amcanion gwella. | | • Mynd i'r afael â phroblemau a godwyd yn ystod yr Archwiliad Diogelwch TG mewnol<br>Popeth wedi ei gwblhau ac eithrio rhoi ffurflen cofrestru ar gyfer mynediad TG corfforaethol ar waith.<br><br>• Sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli cylch bywyd cyfan ein gwybodaeth electronig<br>Ffurflenni EDRMS uwch wedi eu cynnwys yn y Strategaeth ICT (2013-2018).<br><br>• Sicrhau bod y gwaith o lywodraethu gwybodaeth weinyddol yn digwydd yn unol â'r trefniadau ar gyfer llywodraethu gwybodaeth weithredol<br>Polisïau diogelwch yn berthnasol i bobl data.<br><br>• Sicrhau bod data digonol yn cael ei gadw y tu allan i'r cyfyngiad naw milltir a argymhellir er mwyn ein galluogi i adfer gwybodaeth y Gwasanaeth yn llawn<br>Wrthi'n adeiladu isadeiledd PSBA (Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus) i adleoli gweinyddwyr adfer yn dilyn trychineb o Lanelwy i Wrecsam. Cais i Gyngor Sir Wrecsam i gadw un o'r gweinyddwyr adfer yn eu canolfan data.<br><br>2018/19 - Gwaith ar y gweill i nodi meysydd gwella ar gyfer yr adran TGCh. Mae adolygiad llawn o'r strwythur Rheoli TGCh wedi ei gwblhau yn ystod y misoedd diwethaf yn dilyn colli personél a sgiliau. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi meysydd Cefnogi, Dadansoddi, Technegol a Desg Gymorth sydd yn wan neu sydd angen cymorth pellach.<br><br>Mae'r rolau yn yr adran wedi cael eu hailddiffinio i sicrhau eglurder ar gyfeiriad pob rôl yn unigol. Mae hyn wedi arwain at lai o straen ac arweinyddiaeth glir.<br><br>Yn ogystal, ailstrwythurwyd y dull o sicrhau atebolrwydd ariannol a chyllidebu ac mae cyfrifoldebau penodol wedi eu dyrannu i rolau |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | **C3 Gweithredu meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad o'r defnydd o Dechnoleg. | penodol. Hefyd y mae disgwyliad ar bob aelod o staff i gymryd cyfrifoldeb ariannol ac y mae hyn nawr yn systemig ac yn digwydd fel mater o arfer.<br><br>• Datblygu strategaeth TGCh pum mlynedd i gefnogi anghenion yr Awdurdod nawr ac yn y dyfodol trwy ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol<br>Mae ymgynghoriadau wedi eu cynnal gyda Rheolwyr Maes ac Uwch Reolwyr. Fe gwblhaodd y Pennaeth TGCh Strategaeth TGCh (2013-2018) ym mis Hydref 2012 a'i chyflwyno i'r DBST am adolygiad cychwynnol. Cafodd ei diwygio gan y DBST ym mis Tachwedd a chyflwynwyd y ddogfen i'r Grŵp Llywio Gwybodaeth ym mis Rhagfyr. Bydd y strategaethau busnes yn cael eu hadolygu ymhellach gan y DBST a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol cyn cyflwyno'r ddogfen i Benaethiaid TGCh eraill ar gyfer craffu.<br><br>• Dogfennu, cyhoeddi, hyrwyddo safonau a pholisïau technoleg.<br>GTAGC wedi mabwysiadu'r safonau technoleg canlynol:<br>– Systemau Cyffredin (systemau corfforaethol cyffredin i gyflawni prosesau busnes er gwaethaf lleoliad y defnyddiwr).<br>– Mynediad Annibynnol (mynediad i systemau er gwaethaf lleoliad y defnyddiwr o liniaduron, MDTau, tabledi a ffonau clyfar).<br>– Integreiddio Data (trin a chynnal data corfforaethol gan osgoi dyblygu data - FireRMS, MobileDataCMS, geiriadur daearyddol corfforaethol a system gyllid CSC).<br>– Cyfrifiaduron bwrdd gwaith cyffredin i fod yn fwy effeithlon o ran eu saernïaeth a chefnogaeth (gliniaduron corfforaethol, MDTau mewn peiriannau tân, tabledi gyda meddalwedd cleient symudol FireRMS, datblygu gliniaduron gyda LearnPro, PDRPro a Mewnrwyd y Gwasanaeth).<br>– Systemau rhwydwaith cyffredin i fod yn fwy effeithlon o ran eu saernïaeth a chefnogaeth (rhwydwaith PSBA eang ar gyfer rhwydwaith gwasanaethau corfforaethol a phrif gynhalwyr symudol).<br>Oherwydd cyfyngiadau gallu, roedd safonau a pholisïau technoleg yn anffurfiol ac nid oeddent wedi eu dogfennu'n ffurfiol. Mae |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | | problemau galluedd yn bodoli o hyd, ond mae'r gwaith dogfennu wedi ei wella ac mae'n cael ei storio mewn man canolog sydd ar gael i holl staff yr adran TGCh, ac mae'n rhan o ddatrysiad y Ddesg Gwasanaeth TGCh.<br><br>• Sicrhau bod gan yr Awdurdod y sgiliau a'r gallu TGCh i gefnogi a datblygu technoleg heb effeithio'n anffafriol ar ansawdd y gwasanaeth.<br>Mae prosiectau ar y cyd ar waith gyda GTA De Cymru, GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Betsi Cadwaladr, Cynghorau Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn.  Trwy rannu Uwch Reolwr Prosiect a Gweithgorau Technegol Amlsector rydym wedi llwyddo i rannu sgiliau/gwybodaeth ar draws y sectorau i gyflawni'r prosiectau hyn. Er bod hyn o fudd i GTAGC, nid yw'r adnoddau TGCh yn GTAGC yn ddigonol i gefnogi gwasanaethau presennol sydd yn cyfyngu ein hargaeledd i weithio ar y prosiectau cydlynol hyn. Mae rhai adnoddau TGCh wedi eu hymrwymo i ddatblygu.<br><br>• Defnyddio technoleg i wneud y mwyaf o brosesau a gweithdrefnau busnes a'u safoni.<br>Mae GTAGC yn defnyddio technoleg i wneud y mwyaf o brosesau a gweithdrefnau busnes a'u safoni. Mae wedi buddsoddi mewn technoleg gweithio symudol yn ogystal â rhoi systemau electronig ar waith yn lle'r hen systemau papur:<br>– Mae'r system data symudol ar gyfer diffoddwyr tân yn rhoi gwybodaeth risg electronig i griwiau ac yn lleihau'r papur syn cael ei gario ar beiriannau tân. Mae rhyngwynebau'r systemau data symudol, rheoli cofnodion, meistroli a rheoli a systemau hydrantau yn galluogi i ddata gael ei rannu rhwng y systemau hyn. Mae'r gwaith o integreiddio'r systemau hyn a'r gwaith datblygu pellach fan TGACh wedi darparu nodweddion ychwanegol a gwella cydnerthedd ac effeithlonrwydd. Mae gwybodaeth am ADTC nawr ar gael ar yr MDT fel bod criwiau yn gwybod pa eiddo y maent eisoes wedi ymweld â hwy pan maent yn hyrwyddo diogelwch tân yn ystod ymgyrchoedd targedu dwys. |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | | – Mae'r system treuliau electronig wedi disodli'r hen ffurflenni papur. Mae modd i bersonél nodi manylion treuliau ar y system, cael cymeradwyaeth eu rheolwr llinell yn electronig ac mae'r Adran Gyllid wedyn yn prosesu'r taliad heb orfod mewnbynnu unrhyw wybodaeth i'r system, a thrwy hyn leihau achosion o ddyblygu data wrth ei drin i sicrhau bod y broses yn effeithlon.<br>Mae gweithio o'r cartref neu'r orsaf agosaf i gyfeiriad cartref yn lleihau allyriadau carbon o ganlyniad i yrru i'r gwaith ac adref. Mae mwy o fuddsoddi wedi bod mewn technoleg symudol i hwyluso mynediad annibynnol o leoliadau. Mae hyn yn cynnwys gliniaduron corfforaethol ychwanegol gyda mynediad i systemau craidd. Mae'r cleient FireRMS symudol wedi ei gyflwyno er mwn galluogi i staff cwblhau ADTCau, archwiliadau diogelwch tân deddfwriaethol ac asesiadau safle gweithredol gan ddefnyddio ffurflenni electronig ar gyfrifiaduron tabled ar safle yn hytrach na ysgrifennu'r wybodaeth ar ffurflenni papur ac yna gorfod mewnbynnu'r wybodaeth i system gyfrifiadurol ar ôl dychwelyd i'r orsaf. Mae GTAGC wedi ymrwymo i ddefnyddio TGCh werdd a gwneud defnydd mwy effeithlon o amser ei staff trwy elwa i'r eithaf o DGCh.<br><br>• Rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i fonitro a mesur effeithlonrwydd ac effaith y dechnoleg a boddhad defnyddwyr y gwasanaeth.<br>Mae adborth cwsmeriaid yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu system y Ddesg Gwasanaeth, er mwyn ei gipio pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau (e.e. ar ôl adfer digwyddiad neu gwblhau cais am wasanaeth).<br><br>2018/19 – Mae'r adran wedi sicrhau ei fod yn dal i fod yn effro i ddatblygiadau newydd, mentrau cenedlaethol a'r anghenion adrannol eraill.<br><br>Ymgynghori a chydweithredu gydag adrannau eraill wedi gwella ac mae personél wedi eu pennu i brosiectau megis disodli Windows 10, disodli gweinyddwr Digmap, disodli'r Gweinydder fferm, yr MIS |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | | C4 Mynd i'r afael a materion sy'n codi o'r archwiliad o ddangosyddion perfformiad ynghylch sut y caiff 'digwyddiadau dros y ffin' eu trin.<br><br>C5 Mynd i'r afael a'r awgrymiadau a wnaed yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig ynghylch llunio adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar ganfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol. | adnoddau dynol newydd yn ogystal â'r prosiect i ddisodli data symudol sydd yn fenter Cymru gyfan.<br><br>Rydym hefyd wedi ymgysylltu gyda chyflenwyr arbenigol i'n cynorthwyo gyda thasgau penodol megis rholi Macafee a'n cefnogi gyda systemau allweddol. Mae hyn wedi arwain at raglen barhaus i adnewyddu caledwedd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn defnyddio'r feddalwedd ddiweddaraf a'i fod yn cyfateb i'r galw am gynnydd ym manyleb ei galedwedd.<br><br>O gydnabod bod nifer fechan o danau yng Ngogledd wedi eu diffodd gan GTAau cyfagos a bod y rhain heb eu cynnwys yn nifer y tanau yn yr ardal, mae'r ATA wedi cymryd camau i sicrhau y bydd pob un yn cael ei gynnwys yn y cyfanswm blynyddol o hyn ymlaen.<br>Cofnodi ac adrodd rhwng GTAau cyfagos gan ddilyn cyfarwyddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS).<br><br>Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn crynhoi'r gweithgarwch archwilio mewnol yn 2011/12 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2012. Mae Atodiad yr adroddiad hwn yn nodi manylion pob maes archwilio a'r argymhellion a'r farn archwilio yn dilyn yr archwiliadau hynny.<br><br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/154940/13_audit_activity_2011-12_and_draft_audit_plan_2012-13__report.pdf<br><br>Cyflwynwyd adroddiad pellach a oedd yn amlinellu'r Strategaeth Archwilio Fewnol 2011 i 2015 i'r Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2013.<br>http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/201359/7_internal_audit_strategy_2011-15.pdf |

**Ionawr 2011** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1180/atagc_adroddiad_gwella_blynyddol_gan_swyddfa_archwilio_cymru_ionawr_2011.pdf

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr 2011** | Ym mis Awst 2010 lluniodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad sef yr Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol, sy'n cynnwys rhywfaint o fanylion am drefniadaeth yr Awdurdod a sut y caiff ei reoli. | Roedd casgliad cyffredinol yr adroddiad fel a ganlyn: 'mae arweinyddiaeth sefydlog a gwelliannau i lywodraethu corfforaethol yn debygol o gefnogi gwelliant yn y dyfodol'. Hynny yw, mae'r Awdurdod yn debygol o wella pethau ar gyfer y bobl sy'n byw yn ei ardal gan fod ganddo arweinyddiaeth gadarn ac mae'n gwella'r modd y caiff ei reoli. 10 Roedd y negeseuon allweddol o'r adroddiad fel a ganlyn:<br><br>• Mae'r Awdurdod wedi'i redeg yn dda ar y cyfan o ran arweinyddiaeth, llywodraethu, datblygu polisi, rheoli adnoddau a rheoli pobl;<br><br>• mae'n gweithio'n dda mewn partneriaeth ag eraill; a<br><br>• cheir gwendidau o ran rheoli perfformiad ac mae angen datblygu prosesau busnes ymhellach.<br><br>Ers i ni lunio'r Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol mae'r pwysau wedi cynyddu ar bob gwasanaeth cyhoeddus i wneud y defnydd gorau posibl o'i holl adnoddau. Yn 2009-10, gwariant refeniw gros yr Awdurdod oedd £31.3 miliwn, sy'n gyfwerth a £46 fesul trigolyn. Yn y flwyddyn honno, gwariodd yr | | |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | | Awdurdod £2.6 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd. Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon yr Awdurdod; Ei farn ef oedd bod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan a bod yr arian wedi'i wario yn briodol | | |
| | | | | |
| **Ionawr 2011** https://www.nwales-fireservice.org.uk/media/1180/atagc_adroddiad_gwella_blynyddol_gan_swyddfa_archwilio_cymru_ionawr_2011.pdf | | | | |
| **Ionawr 2011** | Drwy Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol gobeithiwn yn raddol greu darlun o ba mor dda y mae'r Awdurdod yn gwasanaethu pobl leol. Er mwyn gwneud hynny, bob blwyddyn byddwn yn archwilio'r gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a rhai o'i amcanion ar gyfer gwella fel y maent yn berthnasol i'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan ddeddfwriaeth a'r weledigaeth a bennwyd gan Fframwaith Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad. Credwn, gyda'i gilydd, fod yr agweddau dilynol yn cwmpasu'r prif bethau y mae awdurdodau tan ac achub yn eu gwneud, sef: | Mae'n rhy gynnar i ni ddweud a gaiff y cynlluniau eu cyflawni ai peidio. Byddwn yn ystyried y cynlluniau dros y misoedd i ddod, ond gallwn ddweud bod y dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn synhwyrol, ac os caiff penderfyniadau a gymerwyd ynghylch opsiynau darparu gwasanaethau eu gweithredu'n llwyddiannus, mae'n debygol o leihau costau a chyflawni ei amcanion gwella. | Cynigion a wnaed yn ein gwaith cynharach<br>Dylai'r Awdurdod ystyried y canlynol:<br><br>• mynd i'r afael a'r ffaith bod y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio o bosibl yn dyblygu rolau wrth fonitro gwybodaeth am berfformiad, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch neu ddyblygu diangen;<br><br>• sicrhau bod yr ystod gyfredol o feddalwedd cyflwyno adroddiadau yn hwyluso proses gwneud penderfyniadau cadarn yn y tymor canolig i'r hirdymor;<br><br>• adolygu pa brosesau busnes a fydd yn cefnogi orau'r gwaith o ddarparu prosiectau arfaethedig yn llwyddiannus; a | ACO Shân Morris |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer Gwella | Diweddariad GTAGC |
|---|---|---|---|---|
| | • A yw'r Awdurdod yn helpu i leihau tebygolrwydd ac effaith tanau a gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd drwy ei weithgareddau atal ac amddiffyn?<br><br>• A yw'r Awdurdod yn ymateb yn dda i danau a bygythiadau eraill i ddiogelwch?<br><br>Yn asesiad eleni rydym wedi ystyried yr amcanion gwella newydd ar gyfer 2011-12 a'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt yn 2010-11. Byddwn yn ystyried amcanion gwella yn fanylach y flwyddyn nesaf i asesu p'un a sefydlwyd llinell sylfaen perfformiad ac, os yw'n bosibl, i ba raddau y mae perfformiad wedi gwella. | | • ffurfio cynllun tymor canolig i sicrhau cytundeb ar gyfeiriad polisi cyffredinol a'r adnoddau sy'n ofynnol i'w gyflawni.<br><br>Cynigion newydd<br>Dylai'r Awdurdod wneud y canlynol:<br><br>• datblygu'r amcanion gwella a'r mesurau perfformiad a chanlyniadau cysylltiedig ymhellach er mwyn gallu nodi a gwerthuso effaith ei weithgarwch ar gyfer ei gymuned; a<br><br>• pharhau i flaenoriaethu gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o’r ffordd y gall gyfrannu at wneud y ffyrdd yn ei ardal yn fwy diogel. | Mae GTAGC yn bartner allweddol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Diogelwch Ffyrdd Cymru gyfan. Rydym ni’n mynychu, cefnogi ac alinio i weithio’n gyson ar draws y tri GTA yng Nghymru drwy’r Fforwm Diogelwch Ffyrdd Cymru gyfan. |